**Crynodeb o Gyfarfod Bwrdd S4C**
Cyfarfod Rhif 464 a gynhaliwyd yn yr Egin

11.30, 29 Mehefin 2023

| | | |
|---|---|---|
| **Aelodau oedd yn bresennol:** | | |
| Rhodri Williams | RhW | Cadeirydd y Bwrdd |
| Guto Bebb | GB | Aelod Anweithredol |
| Suzy Davies | SuD | Aelod Anweithredol |
| Adele Gritten | AG | Aelod Anweithredol |
| Chris Jones | CJ | Aelod Anweithredol |
| Siân Doyle | SD | Prif Weithredwr |
| Elin Morris | EM | Prif Swyddog Gweithredol |
| **Eraill oedd yn bresennol:** | | |
| Manon Edwards-Ahir | MEA | Cyfarwyddwr Cyfathrebu a Marchnata |
| Geraint Pugh | GP | Ysgrifennydd Bwrdd S4C |
| Dewi Evans | DE | Cyfarwyddwr Prosiectau |
| Catrin Hughes Roberts | CHR | Cyfarwyddwr Partneriaethau |
| Mali Williams | MW | Swyddog Materion Cyhoeddus |
| Sharon Winogorski | ShW | Prif Swyddog Cyllid |
| Derbyniwyd ymddiheuriadau gan: | | |
| Denise Lewis Poulton | DLP | Aelod Anweithredol |
| Llinos Griffin-Williams | LlGW | Prif Swyddog Cynnwys |
| Geraint Evans | GE | Cyfarwyddwr Strategaeth Cynnwys a Chyhoeddi |

| | | |
|---|---|---|
| 1. | **Cyfarfod preifat ar gyfer yr aelodau anweithredol**<br><br>Cafwyd trafodaeth ar ymchwiliad Capital Law a'r llinell amser arfaethedig. | |
| 2. | **Canlyniad asesiadau perfformiad blynyddol y Prif Weithredwr a'r Ysgrifennydd**<br><br>Adroddwyd ar y cyfarfodydd a gynhaliwyd gyda'r Prif Weithredwr a'r Ysgrifennydd. | |
| 3. | [ymunodd SD, EM, MAE, a GP â'r cyfarfod]<br><br>**Materion a godwyd gan y Cadeirydd, a datganiadau diddordeb**<br><br>Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod – yn enwedig MEA oedd yn mynychu ei chyfarfod cyntaf o'r Bwrdd ers cychwyn yn swydd Cyfarwyddwr Cyfathrebu a Marchnata S4C.<br><br>Ers cyfarfod diwethaf y Bwrdd, roedd Bethan C Williams wedi gadael ei swydd fel Cynorthwyydd i Ysgrifennydd y Bwrdd. Nodwyd diolchiadau'r Bwrdd iddi am ei chyfraniad i S4C. Byddai'r broses i benodi i swydd newydd Swyddog Gweithredol i Ysgrifennydd y Bwrdd yn cychwyn yn fuan.<br><br>Diolchodd y Cadeirydd i EM am gynrychioli S4C mewn sesiwn dystiolaeth gyda'r Pwyllgor Diwylliant, Cyfryngau a Chwaraeon Senedd y DU ar 20 Mehefin 2023. | |

| | | |
|---|---|---|
| | Gofynnodd y Cadeirydd unrhyw Aelod oedd â diddordeb ym musnes y cyfarfod i ddatgan eu diddordeb. Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau perthnasol. Nodwyd serch hynny bod aelodau wedi nodi diddordebau parhaol mewn perthynas â'u haelodaeth o'r Bwrdd.<br><br>Adroddodd GB fod aelod o'i deulu bellach yn gyflogedig gan gwmni cynhyrchu ac y byddai felly'n diweddaru ei ddatganiad buddiannau parhaol. | <br><br><br>GB |
| 4. | **Crynodeb o asesiadau perfformiad aelodau'r Bwrdd**<br><br>Yn ystod Ebrill 2023, fe gynhaliodd Cadeirydd y Bwrdd Unedol sgyrsiau anffurfiol gyda'r aelodau annibynnol fel rhan o'r broses arfarnu flynyddol. Roedd yr adroddiad yn crynhoi'r adborth a gasglwyd yn ystod y sgyrsiau hyn, ac fe nodwyd bod nifer o'r materion a godwyd yn debyg i'r hyn drafodwyd yn ystod y sesiwn ddatblygu gydag Ian White. | |
| 5. | **Adroddiad y Prif Weithredwr**<br><br>Cyflwynodd y Prif Weithredwr ei hadroddiad, gan amlinellu'r gwaith sydd wedi digwydd dros y cyfnod diweddar.<br><br>Yn gynt yn yr wythnos, fe gyhoeddodd S4C bartneriaeth newydd gyda Fubo a chwmni Ryan Reynolds i ddarparu chwe awr yr wythnos Cymraeg ar gyfer y sianel Maximum Effort yn yr UDA. Croesawyd y datblygiad hwn, ac fe drafodwyd telerau'r cytundeb.<br><br>Nododd SD i'r cyhoeddiad ddenu tipyn o sylw i S4C ar draws y byd trwy'r sylw yn y cyfryngau – yn enwedig y cyfryngau cyhoeddus. Roedd crynodeb o gyrhaeddiad y sylw i S4C ar y cyfryngau cymdeithasol yn sgil y cyhoeddiad wedi ei ychwanegu i bapurau'r Bwrdd ar Diligent. Adroddodd SD hefyd bod nifer o ffrydwyr bellach wedi holi am drafodaethau gydag S4C ynghylch partneriaethau posib i'r dyfodol – cytunwyd bod hyn yn ddatblygiad i'w groesawu.<br><br>Roedd fideo iaith Saesneg o Tudur Owen yn esbonio'r defnydd o'r enw Bannau Brycheiniog wedi ei ryddhau gan S4C ar y cyfryngau cymdeithasol, i gyd-fynd gyda'r fersiwn a ryddhawyd yn y Gymraeg. Roedd y clip wedi derbyn ymateb da iawn ymysg y gynulleidfa ddi-Gymraeg.<br><br>Cynhaliwyd cyfarfod cyntaf o'r Tîm Rheoli a'r Tîm Trawsnewid ar y cyd ar 19 Mehefin 2023. Yn ystod y cyfarfod hwnnw, trafodwyd sut y gallai S4C ail-bwrpasu cynnwys er mwyn gwella ein presenoldeb ar lwyfannau – ac ar YouTube yn arbennig. Byddai strategaeth yn awr yn cael ei datblygu.<br><br>Nodwyd bod tipyn o gwyno ar hyn o bryd ynghylch faint o Saesneg sydd i'w glywed ar Pobol y Cwm yn sgil cyflwyno cymeriad newydd sy'n dysgu'r Gymraeg. Roedd S4C yn gweithio gyda'r BBC i fonitro faint o Saesneg sydd i'w glywed yn y gyfres ar hyn o bryd. Pwysleisiodd GB bwysigrwydd ystyried y cyd-destun, ac ystyried a oes cyfiawnhad dros y defnydd o'r Saesneg mewn rhaglen. | |
| 6. | **Setliad Cyflog 2023–24**<br><br>Cyflwynodd SD y setliad cyflog arfaethedig, a oedd wedi cael ei ystyried gan y Pwyllgor Pobl a Thaliadau ar 15 Mehefin 2023. Ers y cyfarfod hwnnw, roedd y Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol wedi rhannu'r cynnig gyda Bectu ac roedd yn aros am ymateb.<br><br>**Penderfyniad: I gymeradwyo'r setliad cyflog fel yr argymhellwyd yn yr adroddiad.** | <br><br><br><br><br>CW |
| <br><br>7. | [ymunodd ShW â'r cyfarfod]<br><br>**Adroddiad Ariannol Chwarter 4**<br><br>Cyflwynodd ShW yr adroddiad ariannol ar gyfer Chwarter 4 2022–23, oedd yn darparu amlinelliad cliriach na'r datganiadau ariannol blynyddol o sut perfformiwyd yn erbyn y gyllideb am y flwyddyn. Amlinellwyd prif agweddau'r adroddiad. | |
| 8. | **Adroddiadau Diwedd Blwyddyn**<br><br>Roedd y Swyddfa Archwilio Genedlaethol (NAO) wedi cyflwyno canlyniad yr archwiliad allanol i'r Pwyllgor Archwilio a Risg y bore hwnnw. Gan fod nifer o'r adroddiadau diwedd blwyddyn hefyd i'w hystyried yn ystod cyfarfod y Pwyllgor hwnnw, estynnwyd croeso i holl aelodau'r Bwrdd Unedol fynychu, er mwyn osgoi dyblygu trafodaethau mewn manylder. | |

| | | |
|---|---|---|
| | Adroddodd CJ fel Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Risg i'r aelodau anweithredol gwrdd ar wahân gyda'r archwilwyr allanol a mewnol yn gynt heddiw, ac nad oedd unrhyw bryderon wedi eu codi. Cadarnhaodd bod y Pwyllgor Archwilio a Risg yn gwbl hyderus wrth argymell bod y Bwrdd yn cymeradwyo'r adroddiadau diwedd blwyddyn yn ffurfiol.<br><br>Nodwyd bod adroddiad blynyddol yr archwilwyr mewnol wedi ei ystyried gan y Pwyllgor Archwilio a Risg ar 16 Mai 2023; ac nad oedd yr Adroddiad Sicrwydd Ariannol i'r BBC wedi cael ei ystyried gan bwyllgor cyn ei gyflwyno i'r Bwrdd.<br><br>**Penderfyniad: I nodi adroddiad yr NAO ar yr archwiliad allanol, a chymeradwyo'r llythyr rheolaeth i'w ddanfon atynt.**<br><br>**Penderfyniad: I nodi adroddiad blynyddol yr archwilwyr mewnol.**<br><br>**Penderfyniad: I gymeradwyo Adroddiad Blynyddol a Datganiadau Ariannol S4C ar gyfer 2022–23, i'w gyflwyno yn Nhŷ'r Cyffredin ar 12 Gorffennaf 2023.**<br><br>**Penderfyniad: I gymeradwyo cyflwyno'r Adroddiad Sicrwydd Ariannol i'r BBC.**<br><br>**Penderfyniad: I gymeradwyo cyhoeddi'r Datganiad Blynyddol ar Gaethwasiaeth Fodern ar gyfer 2022–23.** | ShW<br><br>GP<br><br>GP<br><br>IM |
| 9. | **S4C Masnachol**<br><br>Yng nghyfarfod Bwrdd y Grŵp Masnachol ar 21 Mehefin 2023, derbyniwyd adroddiadau ar berfformiad ariannol diwedd y flwyddyn adrodd 2022–23 ar gyfer y gweithgareddau masnachol, ac fe gymeradwywyd y gyllideb fasnachol ar gyfer 2023–24. Rhannwyd y dogfennau hyn gydag aelodau'r Bwrdd Unedol er gwybodaeth, ac fe amlinellodd ShW y prif agweddau.<br><br>Roedd yr Adroddiad Ariannol yn amlinellu sefyllfa ariannol gweithgareddau masnachol S4C ar ddiwedd y flwyddyn adrodd 2022–23, ac felly'n cynnig trosolwg o berfformiad y gweithgareddau masnachol yn ystod y flwyddyn a fu.<br><br>Bwriad Bwrdd y Grŵp Masnachol oedd diwygio eu cynllun ariannol pum mlynedd yn hwyrach eleni, er mwyn adlewyrchu'r strategaeth fasnachol newydd wrth i elfennau pellach o'r strategaeth honno gael eu gweithredu. Nododd CJ bod hi'n bwysig cadw elfen o hyblygrwydd gyda'r cynllun ariannol hir-dymor wrth roi'r strategaeth fasnachol newydd ar waith. | |
| 10. | [gadawodd ShW, ac ymunodd DE â'r cyfarfod]<br><br>**Diweddariad chwarterol ar ddashfwrdd cyflawni'r Strategaeth (ar gyfer y DCMS)**<br><br>Cyflwynodd DE'r fersiwn diweddaraf o'r dashfwrdd chwarterol – ar gyfer y chwarter fyddai'n dod i ben y diwrnod canlynol. Ychydig iawn oedd wedi newid ers y dashfwrdd a rannwyd gyda'r Bwrdd fis diwethaf ar gyfer Chwarter 4. Amlinellodd DE y prif newidiadau.<br><br>Nid oedd dyddiadau wedi eu cytuno eto ar gyfer y cyfarfodydd chwarterol gyda'r DCMS yn ystod 2023–24. Byddai'r Ysgrifennydd yn trafod hyn ymhellach gyda swyddogion y DCMS.<br><br>**Penderfyniad: Bod y dashfwrdd yn cael ei ddiwygio, cyn iddo gael ei gyflwyno i'r DCMS.** | DE |
| 11. | [gadawodd DE, ac ymunodd CHR a MW â'r cyfarfod]<br><br>**Adroddiad ar weithredu'r Safonau Iaith yn ystod 2022–23**<br><br>Roedd gofyn i'r Bwrdd gymeradwyo a chyhoeddi adroddiad blynyddol sy'n amlinellu sut mae S4C wedi cydymffurfio gyda Safonau'r Gymraeg sy'n berthnasol i'r sefydliad yn ystod 2022–23. Roedd hefyd disgwyl i'r adroddiad blynyddol hwn amlinellu unrhyw gwynion a dderbyniwyd gan S4C ynghylch gweithredu'r Safonau, a sut yr ymatebwyd i'r cwynion hynny.<br><br>Amlinellodd CHR brif agweddau'r adroddiad blynyddol a oedd wedi ei lunio mewn perthynas â'r flwyddyn adrodd 2022–23. Ystyriwyd y drafft gan y Bwrdd.<br><br>**Penderfyniad: I gywiro unrhyw fân wallau yn yr adroddiad blynyddol, cyn ei gysodi a'i gyhoeddi erbyn diwedd Medi 2023.** | CHR |

| | | |
|---|---|---|
| | [gadawodd CHR a MW y cyfarfod] | |
| 12. | **Cofnodion Cyfarfod Rhif 463 (a gynhaliwyd 25.05.23)**<br><br>Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod diwethaf y Bwrdd, ac fe'u cymeradwywyd. | |
| 13. | **Cofrestr Pwyntiau Gweithredu**<br><br>Nodwyd y gofrestr Pwyntiau Gweithredu. | |
| 14. | **Adroddiadau gan y Pwyllgorau**<br><br>Cyflwynwyd cofnodion cyfarfodydd y Pwyllgorau canlynol, ac fe wahoddwyd y cadeiryddion i dynnu sylw'r Bwrdd at unrhyw faterion perthnasol nad oeddent eisoes wedi eu crybwyll yn ystod y cyfarfod hwn:<br>• Cyfathrebu (a gynhaliwyd 15.06.23)<br>• Pobl a Thaliadau (a gynhaliwyd 15.06.23)<br>• Bwrdd y Grŵp Masnachol (a gynhaliwyd 21.06.23)<br><br><u>Y Pwyllgor Cyfathrebu</u><br><br>Derbyniodd y Pwyllgor gyflwyniad gan gwmni Lily Greu ar eu canfyddiadau yn dilyn eu hadolygiadau o brosesau marchnata S4C. Nododd RhW bod copi o'r adroddiad yn ei gyfanrwydd ar gael ar Diligent, ac fe anogodd aelodau'r Bwrdd i'w ddarllen os nad oeddent wedi gwneud eisoes.<br><br><u>Y Pwyllgor Pobl a Thaliadau</u><br><br>Adroddodd AG i'r Pwyllgor dderbyn adroddiad cynhwysfawr gan y Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol ar ystadegau staffio perthnasol. Croesawodd y datblygiad hwn gan y byddai'n rhoi gwell trosolwg i'r Pwyllgor ar wahanol agweddau yn ymwneud â phrofiad y staff. | |
| 15. | **Penderfyniad rhwng cyfarfodydd**<br><br>Ers cyfarfod diwethaf y Pwyllgor, roedd yr aelodau wedi cymeradwyo dau fater trwy ohebu:<br><br>Penodiad Prif Olygydd ar ran S4C mewn perthynas ag unrhyw gynnwys sy'n ymwneud â llythyr Bectu at aelodau anweithredol Bwrdd S4C ar 28 Ebrill ynghylch yr amgylchedd gwaith yn S4C, ymchwiliad Capital Law, a materion cysylltiedig.<br><br>Adolygiad o Bolisi Cynnwys S4C ar gyfer y flwyddyn adrodd 2022–23. | |
| 16. | **Rhaglen waith y Bwrdd ar gyfer y 12 mis nesaf**<br><br>Nodwyd rhaglen waith y Bwrdd ar gyfer y flwyddyn nesaf.<br><br>Roedd angen adolygu'r rhaglen waith yn sgil y drafodaeth yn ystod y sesiwn ddatblygu gydag Ian White ddiwedd Ebrill 2023. Gan nad fu cyfle eto i ystyried nifer o'r elfennau a drafodwyd yn ystod y sesiwn ddatblygu, cynigiodd y Cadeirydd bod amser yn cael ei neilltuo yn ystod y Cwrdd i Ffwrdd nesaf i barhau'r drafodaeth.<br><br>**Penderfyniad: Bod amser yn cael ei neilltuo yng nghyfarfod Cwrdd i Ffwrdd nesaf y Bwrdd i drafod agweddau o'r hyn a godwyd yn ystod y sesiwn ddatblygu gydag Ian White, gan gynnwys rhaglen waith y Bwrdd.** | GP |